Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Network Cymru



# Effaith cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol ar iechyd a llesiant

Mawrth 2022

# Croeso

Croeso i rhifyn mis Mawrth o'r e-fwletin.

Yn dilyn gweminar fis diwethaf gan Glen Bowen o Ganolfan Gydweithredol Cymru mae e-fwletin mis Mawrth yn canolbwyntio ar fentrau sydd yn dangos sut mae mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a sefydliadau dielw yn arwain y ffordd yn datblygu Cymru wyrddach a mwy cynaliadwy.

Byddem wrth ein bodd yn clywed am unrhyw wybodaeth ychwanegol, astudiaethau achos neu awgrymiadau i'w rhannu gyda'r gymuned iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru mewn e-fwletinau yn y dyfodol ac ar ein gwefan felly cysylltwch â ni yn Publichealth.network@wales.nhs.uk neu gallwch ddod o hyd i ni ar twitter @PHNetworkCymru


## Cysylltu â Ni


Gallwch gysylltu â Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn amrywiaeth o ffyrdd

Drwy anfon e-bost: publichealth.network@wales.nhs.uk

Drwy'r post
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 5, Rhif 2 Capital Quarter,
Tyndall Stryd, Caerdydd, CF10 4BZ

Drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol
Twitter: @PHNetworkCymru

# Cynnwys

Click the heading to go to the page


Penawdau 4
Podlediad 8
Fideos 9
Ar y Grawnwin 10
Newyddion 12
Digwyddiadau 13
Pynciau 14
Rhifyn Nesaf 15

# Penawdau

## Creu lleoedd a gofod iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol

Bydd bwyta'n iach yn cymryd ystyr cwbl newydd yn fuan gyda chynlluniau cyffrous i ddatblygu "fferm" ar dir ger Ysbyty Treforys. Mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno i droi darn o dir drosodd yn fenter ddielw i dyfu amrywiaeth o gnydau – gyda'r gymuned ehangach a chleifion ysbyty o bosibl yn helpu i'w redeg.



**Prif lun uchod: Amanda Davies a Rob Hernando yn y cae ger Ysbyty Treforys fydd yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau**

Er ei fod yn cael ei redeg yn annibynnol, mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan Fae Abertawe fel rhan o'i ymrwymiad ehangach i ddyfodol mwy cynaliadwy.

Mae mentrau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) yn bartneriaethau rhwng ffermwyr a defnyddwyr lle rhennir cyfrifoldebau, risgiau a gwobrau ffermio.

Cânt eu rhedeg gan un neu fwy o brif dyfwyr a gefnogir gan wirfoddolwyr sy'n gallu dysgu sgiliau newydd a mwynhau'r buddion therapiwtig sy'n gysylltiedig â gweithgareddau garddio.

Daw cyllid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys grantiau a gwerthu blychau llysiau organig wythnosol i danysgrifwyr lleol.

Dechreuodd CSAs yn Japan a Gogledd America ac maent bellach wedi'u sefydlu ledled Ewrop a'r DU – gan gynnwys dau ym Mhenrhyn Gŵyr.

Daeth BIP Bae Abertawe i gymryd rhan ar ôl darganfod bod Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe yn chwilio am gyfleoedd i sefydlu CSAs pellach ar draws ardal ehangach o'r ddinas.

Dywedodd Amanda Davies, Rheolwr Gwella Gwasanaeth y bwrdd iechyd, fod trigolion Bae Abertawe yn byw yn hirach nag erioed o'r blaen.

"Fel llawer o rannau eraill o Gymru, rydyn ni'n wynebu heriau cynyddol ynghylch sut i gadw ein poblogaeth yn iach," meddai.

"Rydym hefyd yn parhau i fod ag anghydraddoldebau iechyd ar draws gwahanol rannau o'r ardal.

"Rydyn ni'n gwybod bod gan bobl sy'n byw yn Nwyrain Abertawe ddisgwyliad oes o 12 mlynedd yn llai na'r rhai sy'n byw yng ngorllewin Abertawe.

"Mae angen i ni feddwl yn wahanol am sut rydym yn mynd i'r afael â'r heriau hyn os ydym am gael gwasanaeth iechyd a gofal cynaliadwy yn y dyfodol."

Beth amser yn ôl, prynodd y bwrdd iechyd dir ger Ysbyty Treforys ar gyfer datblygiad posibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae topograffeg un rhan o'r tir hwn yn ei gwneud yn anaddas i adeiladu arno.

Ond, fel mae'n digwydd, mae'r pridd yn ddelfrydol ar gyfer tyfu cnydau.

Cysylltodd Bae Abertawe â Cae Tan, CSA llwyddiannus sydd wedi'i leoli yn Parkmill, Gŵyr, a Chyfoeth Naturiol Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r safle 7.6 erw hwn, sy'n cynnwys ei ffrwd ei hun.

Mae'r bwrdd iechyd bellach wedi ymrwymo i brydlesu'r safle, am rent rhad, i CSA newydd am 10 mlynedd, gan ddechrau ganol mis Mawrth.

Bydd yn cael ei reoli gan y prif dyfwr Rob Hernando sydd wedi bod yn ymwneud â phrosiectau cymunedol yn ardal Abertawe ers 2014.

Yn 2017 dechreuodd astudio am radd Meistr mewn cynaliadwyedd ac addasu gyda'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth, a feithrinodd ddiddordeb mewn rhwydweithiau cyflenwi bwyd ac amaethyddiaeth amgen.

Dechreuodd Rob wirfoddoli yng Nghae Tan, a daeth yn angerddol am greu mynediad at brosiectau tebyg yn nwyrain y ddinas, a arweiniodd yn y pen draw at weithio gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu CSA Treforys.

Darllenwch fyw yma

## Busnes Cymdeithasol Cymru

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn darparu gwybodaeth dechnegol ar gyfer y rhai ohonoch sy'n ystyried dechrau neu weithredu busnes cymdeithasol.



Mae busnesau cymdeithasol yn cynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr.

Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon ochr yn ochr â chymorth gan ein cynghorwyr busnes arbenigol, byddwch ar y llwybr i lwyddiant mewn busnes cymdeithasol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch yma

# Fareshare Cymru

Mae ymchwil yn dangos bod 2 filiwn o dunelli o'r bwyd sydd yn cael ei wastraffu ar draws y diwydiant bwyd bob blwyddyn yn iawn i'w fwyta pan mae'n cael ei daflu. Yn y cyfamser, mae 7 miliwn o bobl yn y DU yn cael anhawster yn cael digon i'w fwyta (5 miliwn o oedolion a 2 filiwn o blant). Mae hynny'n gynnydd o 2 filiwn o ganlyniad i'r pandemig, (yn ôl ffigurau'r llywodraeth a'r Sefydliad Bwyd).

Byddai 2 filiwn o dunelli o fwyd sydd yn iawn i'w fwyta sydd yn cael ei wastraffu yn gwneud yr hyn sydd yn gyfwerth â 1.3 biliwn o brydau bwyd – digon i fwydo pawb sydd mewn tlodi bwyd am hanner y flwyddyn (dros 180 o brydau yr un). FareShare yw elusen ailddosbarthu bwyd y DU sydd wedi bod yn weithredol hiraf, wedi ei chydsefydlu'n wreiddiol (gyda Sainsbury's) ym 1994 mewn partneriaeth â'r elusen ddigartrefedd 'Crisis'. Daeth FareShare yn elusen annibynnol yn 2004 gyda chanolfannau rhanbarthol yn Llundain, De Swydd Efrog, Dundee, Caeredin a Brighton ac aeth ymlaen i dyfu i fodloni'r galw cynyddol.

Yn 2010, agorodd FareShare Cymru ac mae erbyn hyn yn ailddosbarthu rhwng 60-70 o dunelli o fwyd y mis ymysg 170+ o aelod-sefydliadau. Mae ei brif ganolfan ddosbarthu yng Nghaerdydd ac me ar hyn o bryd yn gwasanaethu De Cymru. Mae'r aelod-sefydliadau yn cynnwys elusennau lleol, grwpiau ffydd, sefydliadau cymunedol, hosteli ac ysgolion, sydd yn talu swm bach tuag at y costau ac yn gyfnewid am hyn yn cael paledi o fwyd dros ben gan brif archfarchnadoedd a gwneuthurwyr bwyd. Mae hyn yn ei dro yn cael ei ddosbarthu gan yr aelodau i'r rheiny sydd fwyaf mewn angen yn lleol. Mae Fareshare Cymru yn dibynnu'n helaeth ar gymorth eu 88 o wirfoddolwyr sy'n cyflawni nifer o rolau hanfodol yn cynnwys gweithrediadau a chymorth gweinyddol, cynorthwywyr warysau, cynorthwywyr marchnata a chyfathrebu, gweithwyr cyswllt grwpiau cymunedol, gyrwyr dosbarthu a chymdeithion gyrwyr.

Mae'r model ar gyfer gwasanaethau yn syml ac yn effeithiol tu hwnt. Mae canolfannau dosbarthu i archfarchnadoedd a gwneuthurwyr bwyd sydd yn nodi bwyd gormodol neu dros ben o ansawdd da nad yw ei oes wedi darfod, yn ei ddosbarthu i warws canolfan ddosbarthu FareShare. Yma mae'n cael ei gofnodi, ei storio'n briodol (ei rewi, ei oeri neu ei gadw ar dymheredd sefydlog) ac yna ei lwytho ar baledi bob dydd i'w ddosbarthu i aelod-sefydliadau. Mae'r aelodau yn nodi a oes pethau penodol y maent yn eu cymryd neu ddim yn eu cymryd (er enghraifft dim bwydydd wedi rhewi os na allant eu storio, neu dim cig ar gyfer grwpiau penodol). Mae'r aelodau wedyn yn defnyddio'r bwyd i gynorthwyo eu hetholaethau, gallai hyn gynnwys pecynnu bwyd ar gyfer pobl agored i niwed yn eu cymuned neu ddefnyddio'r bwyd i ddarparu prydau poeth, er enghraifft mewn hosteli neu glybiau cinio ac ati. Mae'r system hon yn helpu i ddarparu rhwng 24-28,000 o brydau ar hyn o bryd i rai o bobl fwyaf agored i niwed Cymru.

Gogoniant y system yw'r budd ar y ddwy ochr, sef lleihau gwastraff bwyd, cyfrannwr pwysig at ddatblygu cynaliadwy, tra'n helpu ar yr un pryd i fynd i'r afael â thlodi bwyd, cydran allweddol o annhegwch iechyd a chymdeithasol.

Mae FareShare hefyd wedi sefydlu rhwydweithiau rhanbarthol gwerthfawr sydd yn cefnogi gwaith rhagorol cymunedau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol, tra'n gweithredu hefyd fel cyswllt hanfodol i fanwerthwyr a chynhyrchwyr bwyd cenedlaethol cefnogol yn y sector preifat.

Mae mwy o wybodaeth a chyfleoedd i wirfoddoli neu ddarparu cymorth pellach ar gael yn: [Gwirfoddolwr, De Cymru, Gwastraff Bwyd, Newyn - FareShare Cymru]

# Bwyd Caerdydd

Partneriaeth dinas gyfan o unigolion a sefydliadau yw [Bwyd Caerdydd]. Mae'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer cysylltu'r bobl a'r prosiectau sy'n gweithio i hyrwyddo bwyd iach ledled y ddinas, sy'n amgylcheddol gynaliadwy a moesegol; mae'n gweithredu fel llais ar gyfer newid ehangach.

Sefydlwyd Bwyd Caerdydd yn 2014 fel un o'r Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy cyntaf yn y DU. Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, mae wedi datblygu a thyfu'n sylweddol, gan gael effaith amlwg ar lefel dinas gyfan. Yn 2021, enillodd Caerdydd statws arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, gan ddod y lle cyntaf yng Nghymru ac un o ddim ond chwe lle yn y DU i ennill y wobr fawreddog.

# Glyn Wylfa yng Ngogledd Cymru yn ennill gwobr menter gymdeithasol y DU

Enillodd Glyn Wylfa ltd y tlws yng Ngwobr Busnes Cymunedol sydd yn Trawsnewid.

Mae [Glyn Wylfa] yn gaffi, yn hyb cymunedol a thwristiaeth ac yn ganolfan fusnes a sefydlwyd wyth mlynedd yn ôl fel menter gymdeithasol er budd y gymuned leol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Glyn Wylfa wedi cynyddu incwm gwerthiannau 15% ac elw/gwarged net 30% - a ddefnyddiwyd i arbed ynni a buddsoddiadau er budd cwsmeriaid – tra'n dyblu eu rhoddion elusennol a lleol hefyd.

# Podlediad

## Gwrando ar ein podlediad diweddaraf

### Ysgolion Iach

Beth yw Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru a'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy? Beth yw Dull Ysgol Gyfan/Lleoliad Cyfan? Beth yw Ysgol neu Gyn-ysgol iach yn edrych fel?

Gwrando

## Podlediadau Eraill

Incwm Sylfaenol, Iechyd a Chymru — Gwrando

Parc Rhanbarthol y Cymoedd — Gwrando

Petruster Brechlyn yng Nghymru cyn ac yn ystod COVID-19 — Gwrando

Gweld yr holl bodlediadau

## Cyfrannu at ein Podlediad

Os oes gennych ddiddordeb yn recordio podlediad gyda ni, cysylltwch ar ebost: publichealth.network@wales.nhs.uk

# Fideos

## Gwylio ein fideo diweddaraf




### Creu lleoedd a mannau iach: dull cydweithredol

Bydd y gweminar o Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru helpu cyfranogwyr i ddeall y cyfraniad y gall cynllunio a chreu lleoedd ei wneud i fynd i'r afael â rhai o'r heriau iechyd mawr sy'n wynebu cymunedau.

Gwylio

## Mwy o fideos




### Sut gall busnesau lleol ein helpu i gael adferiad ar ôl Covid yn ogystal â mynd i'r afael â newid hinsawdd?

Yn y weminar hon, clywsom gan Glenn Bowen sydd yn Gyfarwyddwr Rhaglen Fentrau Canolfan Gydweithredol Cymru. Rhoddodd Glenn drosolwg o fentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a busnesau y mae cyflogeion yn berchen arnynt a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol mewn iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector ynni adnewyddadwy.

Gwylio




### Sut gallai cytundebau masnach newydd effeithio ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru?

Mae gan gytundebau masnach y potensial i effeithio ar iechyd a llesiant yng Nghymru mewn sawl ffordd – o'r bwyd yr ydym yn ei fwyta i'n gwasanaethau gofal iechyd, y farchnad swyddi a'r gallu i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Gallant hefyd effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wella iechyd y cyhoedd trwy bolisi newydd.

Gwylio

Gweld yr holl fideos

# Ar y Grawnwin

## Cyfleoedd Gwyrdd

Mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn cyhoeddi Cyfleoedd Gwyrdd, sef e-friffio chwarterol sy'n casglu dysgu ac sy'n nodi arferion gorau i gefnogi gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy adferiad gwyrdd o COVID-19, o ystyried yr heriau a'r anghydraddoldebau y mae'r pandemig wedi'u hamlygu ymhellach.

[https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2022/03/PHW_Winter_2021_E-briefing_Welsh-FINAL.pdf](https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2022/03/PHW_Winter_2021_E-briefing_Welsh-FINAL.pdf)

Mae'r rhifyn hwn yn canolbwyntio ar y ffyrdd y gallwn symud tuag at economi gylchol - un sy'n lleihau gwastraff i sero drwy gadw popeth sy'n cael ei ddefnyddio – gellir trwsio cynhyrchion a fydd yn para'n hirach, neu yn y pen draw gellir eu datgymalu ac ailddefnyddio'r darnau.

Gobeithio y cewch ysbrydoliaeth ar ystod o gyfleoedd cynaliadwy i gyfrannu tuag at ddyfodol iach, teg a chynaliadwy i Gymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu hyn gyda'ch rhwydweithiau ehangach.

Rhannwch unrhyw adborth hefyd. Rydym yn croesawu'r holl sylwadau.

## Ein Dôl Iechyd: Dylunio a datblygu ymagwedd newydd tuag at gyflwyno gofal iechyd trwy atebion yn seiliedig ar natur

**Down to Earth**
Mae Down to Earth yn fenter gymdeithasol sydd wedi ennill sawl gwobr gydag enw da dros 16 mlynedd yn darparu rhaglenni gofal iechyd ac addysg sydd yn newid bywydau trwy gyfrwng adeiladu cynaliadwy awyr agored, rheoli tir a gweithgareddau antur.

Gyda mwy nag 11 mlynedd o ddata ymchwil glinigol o weithio gyda grwpiau sydd wedi llywio datblygiad eu mesurau monitro lles eu hunain, mae DTE yn credu mewn ffyrdd yn seiliedig ar dystiolaeth o weithio a chaiff hyn ei danategu gan ymchwil academaidd a chlinigol wrthrychol.

**Ein Dôl Iechyd**
Mewn partneriaeth ag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae Down to Earth wedi dylunio ac yn datblygu Cyfleuster Gofal Iechyd Therapiwtig Awyr Agored, Ein Dôl Iechyd, mewn 14 erw o dir o amgylch Ysbyty Athrofaol Llandochau (UHL), Penarth, Bro Morgannwg. Gyda chleifion a staff yn ganolog iddo, mae DTE yn gweithio'n agos gyda'r partneriaid hyn i ddylunio a chyflwyno isadeiledd gwyrdd a phresgripsiynu cymdeithasol ar y raddfa y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datganiad Argyfwng Hinsawdd Llywodraeth Cymru a brys chwalfa bioamrywiaeth yn galw amdano.

Wedi ei ariannu trwy raglen Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru a rhaglen Coetir Cymunedol y Gronfa Dreftadaeth, mae'r prosiect 3 blynedd yma – o'r enw "Parod at y Dyfodol" – yn seiliedig ar ddylunio a datblygu ymagwedd newydd tuag at gyflwyno gofal iechyd trwy atebion yn seiliedig ar natur, gan greu isadeiledd amgylchedd adeiledig trefol a gwledig sydd yn dda i bobl ac yn dda i'r blaned. Ein Dôl Iechyd (OHM) fydd y prosiect cyntaf yng Nghymru i gyflawni Gwobr Safonau Adeiladu gyda Natur.

Mae'r prosiect yn gwella ac yn datblygu cae 7 erw o goetir o amgylch UHL. Mae DTE yn gweithio gyda phartneriaid, staff, cleifion a'r gymuned ehangach i greu'r cyfleuster gofal iechyd ac adsefydlu awyr agored, arloesol hwn i gynnwys "Canolfan Therapi" bwysig wedi ei hadeiladu yn gyfan gwbl o ddeunyddiau naturiol a phren o Gymru. Mae'r safle, a ddyluniwyd trwy ymgysylltu â chleifion a staff y GIG a'r cymunedau lleol ehangach yn ystod dau ymgynghoriad cyhoeddus, wedi ei ddyfeisio o amgylch tirwedd fwytadwy, gyda ffocws ar wella iechyd, cysylltedd ac amrywiaeth cynefinoedd naturiol a'r rhywogaethau sydd yn ffynnu ynddynt. Mae'r gweithgareddau awyr agored therapiwtig yn cynnwys datblygu tirwedd y safle ac adeiladu'r cyfleusterau therapi, yn ogystal â mwynhau a chynnal a chadw'r safle.

Mae prosiect OHM yn datblygu'r 11 mlynedd diwethaf o ymchwil ac yn mynd â hyn ymhellach trwy ganolbwyntio ar lesiant staff. Mae ein hymchwil glinigol wedi arwain at gyhoeddi papur yn yr "International Journal of Mental Health" ym mis Chwefror 2020. Mae'r darn pwysig hwn o ymchwil yn dangos bod ein hymagwedd mor effeithiol â gwrth-iselyddion – heb y sgîl-effeithiau. Mae ein herthygl ddiweddaraf ar gael [yma](yma)

Mae lledaenu canfyddiadau'r prosiect ac "arfer gorau" mewn ffordd gadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws holl fyrddau iechyd Cymru, yn ganolog i weledigaeth y prosiect hwn. Trwy'r prosiect, mae DTE yn gwella dealltwriaeth ac yn dangos arfer gorau o ran y ffordd y mae'r amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol yn cydblethu o ran y ffordd y gallant gael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl ac iechyd yr amgylchedd.

I ganfod mwy ewch i:
[www.downtoearthproject.org.uk](http://www.downtoearthproject.org.uk)

# Newyddion

22-03-2022

### Buddsoddi £25m mewn ysgolion bro i fynd i'r afael ag effaith tlodi

Darllen

22-03-2022

### Marwolaethau canser cyffredinol yn gostwng yn ystod y pandemig, ond anghydraddoldebau'n ehangu ar gyfer rhai mathau o ganser

Darllen

17-03-2022

### Cymru'n dechrau rhoi brechiadau atgyfnerthu ar gyfer y gwanwyn o'r wythnos hon

Darllen

16-03-2022

### Cymru sy'n Wybodus o Drawma: Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd

Darllen

11-03-2022

### Y Prif Weinidog yn annog pobl i ddweud eu dweud am Ymchwiliad COVID-19 y DU gyfan

Darllen

09-03-2022

### Ymgyrch Iechyd Meddwl Childline

Darllen

Gweld yr holl newyddion

# Digwyddiadau

AR-LEIN



06-04-2022
2yp-3yp

Mwy

### Hinsawdd ac Iechyd yng Nghymru: Ymagweddau Un Iechyd i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng Hinsawdd a Natur yng Nghymru

Bydd y weminar hon yn rhoi dealltwriaeth o'r canlynol beth a olygir gan yr ymagwedd Un Iechyd a pham y mae wedi dod yn fwy amlwg yng ngoleuni pandemig COVID-19; Sut gellir sefydlu ymagweddau Un Iechyd fel rhan o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur ac i wella iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru.

ALLANOL



12-04-2022 -
9:30yb-3yp

Mwy

### Datblygiad Plant

Mae gwybodaeth gadarn o ddatblygiad plant yn hanfodol wrth weithio gyda phlant. Mae bod â gwybodaeth am batrymau datblygu nodweddiadol yn helpu i nodi lle mae pryderon y gallai plentyn fod 'oddi ar y trywydd iawn' ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arno.

ALLANOL



26-04-2022
9:30yb-12:30yp

Mwy

### ACE: Adeiladu gwydnwch yn wyneb profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â diddordeb mewn meithrin dealltwriaeth o brofiadau niweidiol plentyndod.

AR-LEIN



14-06-2022
8yb-4:30yp

Mwy

### Cynhadledd Gwella Iechyd a Chynyddu Gweithgaredd Corfforol

Bydd y gynhadledd hon yn canolbwyntio ar sut i fabwysiadu ymagwedd iechyd ataliol ar draws eich cymuned trwy hybu a phresgripsiynu gweithgaredd corfforol.

Gweld pob digwyddiad

# Pynciau

Gweld pob testun

**A**
Accidents and injury prevention
Adverse Childhood Experiences
Air Quality
Alcohol and substance use and misuse
Approaches and methods in public health practice
Arts and health

**B**
Behaviour change
Biodiversity and greenspace
Built environment
Cancers
Cardivascular conditions
Carers
Children and young people
Climate change
Communicable diseases
Community
Community assets
COVID-19

**D**
Debt and benefits
Diabetes
Diet and nutrition

Early Years
Education and training
Employment
Environment
Ethnicity
Evaluation

**F**
Foodborne communicable diseases
Fuel Poverty
Further, higher and tertiary education

**G**
Good, fair work

**H**
Health in all policies
Health inequalities
Health related behaviours
Homelessness
Housing
Housing quality
Human rights and social justice

**I**
Income and resources
Influenza

**L**
Learning difficulties
LGBTQ+

**M**
Maternal and new born health
Men
Mental health conditions
Mental ill-health
Mental wellbeing

**N**
Natural environment
Non-communicable diseases

**O**
Offenders
Older adults
Oral health

**P**
People
Physical activity
Planning
Poverty
Precarious work
Preschool (including WNHPSS)
Prevention in healthcare

**R**
Respiratory conditions

**S**
School (Including WNHPSS)
Sexual health
Sexually Transmitted Infections
Smoking and vaping
Social capital
Spirituality
Stress, coping and resilience
Suicide and suicide prevention
Sustainable development
Systems thinking in public health

**T**
Transport

**U**
Unemployment

**W**
Water and sanitation
Wellbeing of Future Generations
Wider determinents of health
Women
Working age adults

# Rhifyn Nesaf

## Effaith Hinsawdd, Natur ac Iechyd yng Nghymru

